Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Branas

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Branas yn darparu therapi addysgol arbenigol ar gyfer bechgyn 11-16 oed sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth ac anawsterau dysgu cymedrol. Caretech Ltd yw perchennog yr ysgol, ac mae'n ei rheoli hefyd.

Mae 18 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ac yn byw yn y cartrefi plant sy'n cael eu gweithredu gan Caretech. Mae cartrefi'r plant wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Arolygwyd yr ysgol gan Estyn ddiwethaf ym Mehefin 2014. Ers yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol, mae'r arweinyddiaeth yn yr ysgol wedi newid yn rheolaidd. Mae'r pennaeth dros dro presennol wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2017.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrraedd eu gwersi'n brydlon.

Dros gyfnod, mae athrawon a'r staff gofal preswyl sy'n darparu cymorth yn yr ysgol yn meithrin perthnasoedd pwrpasol gyda disgyblion. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion ac yn ymateb yn sensitif i ddigwyddiadau yn yr ysgol.

Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd i ennill ystod addas o gymwysterau cydnabyddedig mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad priodol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy ystod eang o weithgareddau addysgol, gan gynnwys addysg yn yr awyr agored a chyrsiau galwedigaethol.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd yn yr awyr agored yn darparu amgylchedd dysgu priodol sydd ag ystod addas o adnoddau.

## Meysydd i'w datblygu

Mae mwyafrif yr athrawon yn nodi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn eu gwersi. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Cyn lleoli, caiff yr ysgol wybodaeth gyfyngedig iawn am anghenion dysgu disgyblion. Dros gyfnod, mae'r ysgol wedi sefydlu asesiad gwaelodlin priodol o fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid oes unrhyw brosesau ffurfiol ar waith i ailasesu medrau disgyblion nac olrhain y cynnydd a wnânt mewn gwersi.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol, mae'r ysgol wedi newid arweinyddiaeth a rheolaeth yn sylweddol. O ganlyniad, mae cynnydd o ran yr argymhellion blaenorol wedi bod yn gyfyngedig.

Mae lleiafrif o'r dogfennau a'r polisïau mewn perthynas â diogelu yn yr ysgol wedi dyddio. Nid yw llawer ohonynt yn adlewyrchu arfer bresennol yn yr ysgol. Ychydig iawn o'r rhain sy'n cyfeirio'n briodol at arweiniad diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Mae'r pennaeth dros dro yn dechrau datblygu diwylliant o hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Fodd bynnag, mae ystod y prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn yr ysgol yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid yw'r ysgol yn dadansoddi data disgyblion unigol a lefel ysgol ar ymddygiad, presenoldeb na chynnydd mewn gwersi yn drylwyr. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddigon o dystiolaeth uniongyrchol drylwyr i lunio barn ar ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Sicrhau bod datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn cael ei gydlynu ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys trwy gyrsiau galwedigaethol a gweithgareddau addysg yn yr awyr agored

A3 Datblygu fframwaith ffurfiol i asesu'r cynnydd a wna disgyblion yn eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u dysgu tra byddant yn yr ysgol

A4 Mynd i'r afael â'r problemau mewn diogelu a nodwyd yn ystod yr ymweliad monitro blynyddol

A5 Sefydlu cylch sicrhau ansawdd cadarn sy'n cynnwys ffocws clir ar gynnydd a deilliannau disgyblion

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws yr ysgol i sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

At ei gilydd, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cynlluniau priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Yn ddiweddar iawn, mae'r cydlynydd llythrennedd yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau cyfathrebu, ysgrifennu a darllen ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y gwaith hwn. Mae'r cynllunio ar gyfer medrau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Ni fu cyfeiriad na chymorth strategol ar gyfer cydlynu'r gwaith hwn yn yr ysgol.

**Argymhelliad 2: Cynyddu'r cyfleoedd i athrawon arsylwi arfer orau mewn addysgu yn yr ysgol ac mewn lleoliadau eraill**

Ni aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

Ers yr ymweliad monitro blynyddol blaenorol, ychydig iawn o gyfleoedd y mae athrawon wedi'u cael i arsylwi ei gilydd neu ymweld â lleoliadau eraill i arsylwi arfer dda. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth dros dro a'r pennaeth addysg wedi cynnal arsylwadau gwersi ar gyfer pob un o'r staff. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r arsylwadau hyn wedi cael eu dadansoddi i alluogi'r ysgol i rannu arfer orau.

**Argymhelliad 3: Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ddeall a dathlu ystod ehangach o ddiwylliannau a thraddodiadau**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mewn lleiafrif o bynciau, mae athrawon yn cynllunio'n ddigonol i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am ystod ehangach o ddiwylliannau a thraddodiadau. Mae'r cynllun gwaith addysg bersonol a chymdeithasol yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am berthnasoedd iach, goddefgarwch a'r angen i barchu pobl eraill. Fodd bynnag, nid yw'r drefn o gydlynu'r cyfleoedd hyn ar draws y cwricwlwm wedi'i datblygu'n ddigonol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gael polisi cwricwlwm ysgrifenedig sy'n cael ei gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, a'i roi ar waith yn effeithiol [1(2)]
- sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn cyflawni gofynion datganiadau disgyblion [1(2e)]
- sicrhau bod athrawon yn dangos dealltwriaeth dda o ddyheadau, anghenion a chyrhaeddiad blaenorol y disgyblion, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwersi [1(3d)]
- sicrhau bod fframwaith ar waith i asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn drylwyr a bod gwybodaeth o asesiad o'r fath yn cael ei defnyddio i gynllunio addysgu er mwyn i ddisgyblion allu gwneud cynnydd [1(3)(g)]
- rhoi fframwaith ar waith er mwyn gallu arfarnu perfformiad disgyblion trwy gyfeirio naill ai at nodau'r ysgol ei hun, fel y cânt eu darparu i rieni a/neu, yn ôl normau cenedlaethol [1(4)]

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i atal bwlio sy'n rhoi ystyriaeth i gylchlythyr 23/03 y Cynulliad Cenedlaethol, "Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio" [2(2a)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol, sy'n rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru: 'Ymweliadau Addysgol – Canllawiau diogelwch ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth' 2008 [3(2c)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion, sy'n pennu'r cosbau i'w mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn [3(2)(d)]
- paratoi a gweithredu polisi boddhaol ar Gymorth Cyntaf [3(3)]
- cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau a roddir i ddisgyblion am dramgwyddau disgyblu difrifol [3(6)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod yr ysgol yn cyflenwi gwybodaeth am ddisgyblion â datganiadau i'r awdurdod addysg lleol cyfrifol yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn rhesymol at ddiben yr adolygiad blynyddol o'r datganiad

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Branas |
| **Rhif yr ysgol** | 6636040 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 15/02/2017 |
| **Perchennog** | Branas Isaf (Rhan o CareTech Group) |
| **Staff** | 6 athro amser llawn, 2 athro rhan-amser (0.6 cyfwerth ag amser llawn), 1 athro rhan-amser (0.2 cyfwerth ag amser llawn), 1 rheolwr cwricwlwm a gweithgarwch galwedigaethol, 1 gweinyddwr |
| **Nifer y disgyblion** | 18 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 02/06/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/05/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Cofnodwch destun |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Huw Davies | Arolygydd Tîm |